# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymuned Y Fali

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n gosod cyfeiriad effeithiol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Cefnogir gweledigaeth y pennaeth gan dîm o staff ymroddedig sy'n rhan annatod o gymuned ddysgu gynhwysol a chefnogol. Mae'r corff llywodraethol yn dangos ymrwymiad pendant i weithgarwch yr ysgol, gan gyfrannu'n fedrus at lywio ei gwaith drwy gynnig cefnogaeth a her adeiladol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog i ganolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith yr addysgu ar y dysgu.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sydd wedi'i wreiddio'n effeithiol yng nghyd-destun lleol yr ysgol sy'n meithrin ei pherthynas glòs â'r gymuned leol. Mae disgyblion yn dangos balchder gwirioneddol yn eu cynefin. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i fentrau cefnogi'r cyngor cymunedol, sy'n chwarae rhan allweddol wrth feithrin balchder cadarn disgyblion yn eu cymuned.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu cyfoethog ac ysbrydoledig. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau, yn enwedig yn eu medrau rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw'r adborth staff bob amser yn darparu digon o her i gefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu.

Mae staff yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol â disgyblion, gan flaenoriaethu eu lles yn ddyddiol. Maent yn ymateb yn sensitif i anghenion unigol, gan adeiladu ar wybodaeth gadarn am gefndiroedd ac anghenion disgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a difyr sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn fuddiol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau brwdfrydig tuag at eu dysgu. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn hyderus bod staff yn gwrando arnynt. Trwy hyn, mae ymddygiad bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn rhagorol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio'n fanwl ar effaith yr addysgu ar gynnydd a safonau disgyblion

A2 Sicrhau bod adborth yn darparu her ar gyfer disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025